# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 9 Mai 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Lleoliad Siambr Drafod y Cynulliad

**C9 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ynghylch pryd y mae'n bwriadu penderfynu'n derfynol ar leoliad parhaol siambr drafod y Cynulliad? (OAQ4931)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Penderfyniadau i'r Cynulliad yn hytrach nag i mi yw penderfyniadau ynglŷn â siambr drafod y Cynulliad. Trefnwyd dadl ar hyn yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Mai.

### 'Gwellcymru.com'

**C10 Gareth Jones:** Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad yn y ddogfen 'Gwellcymru.com' i roi rôl wirioneddol i fusnesau yn cael ei wireddu? (OAQ4945)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn sicrhau bod busnesau yn cael rôl wirioneddol pa bryd bynnag yr effeithir ar eu buddiannau gan benderfyniadau'r Cynulliad. Ceir ymgynghori drwy dair prif sianel, drwy gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth Busnes, drwy gyswllt anffurfiol a thrwy brosesau ymgynghori ffurfiol.

### Trefniadau ar gyfer Ffoaduriaid

**C11 Janet Davies:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cynnal trafodaethau gyda Gweinidogion y Swyddfa Gartref ynghylch trefniadau ar gyfer ffoaduriaid sydd yn dod i Gymru? (OAQ4923)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ddim hyd yma. Fodd bynnag, mae fy swyddogion mewn cyswllt rheolaidd â swyddogion y Swyddfa Gartref ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf imi am y datblygiadau.

### Treftadaeth Ddiwydiannol

**C12 Lynne Neagle:** Ym marn y Prif Ysgrifennydd, pa rôl y bydd treftadaeth ddiwydiannol yn ei chwarae o ran hybu delwedd Cymru? (OAQ4929)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn awyddus i hyrwyddo pob agwedd o Gymru fel man o'r radd flaenaf i wneud busnes ynddo ac i fyw, astudio ac adeiladu bywyd proffesiynol a phersonol ynddo. Mae fy swyddogion eisoes yn gweithio gyda chyrff allweddol o'r sector cyhoeddus i ddatblygu strategaeth gydlynus i godi proffil Cymru. Yr wyf am hyrwyddo delwedd Cymru fel gwlad fodern, llawn bywyd, heb anghofio ein treftadaeth ddiwydiannol, ein diwylliant a'n traddodiadau, y mae gan bob un ohonynt ran allweddol i'w chwarae o hyd er hyrwyddo Cymru.

### Gwasanaeth Tân (Mewnbwn y Cynulliad)

**C13 Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cynnal gyda'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch mewnbwn y Cynulliad i'r modd y mae'r gwasanaeth tân yn cael ei redeg yng Nghymru? (OAQ4935)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf wedi cael trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Cartref hyd yma ynglŷn â'r modd y mae'r gwasanaeth tân yn cael ei redeg yng Nghymru.

### Adfywio'r Cymoedd

**C14 Geraint Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch adfywio'r Cymoedd? (OAQ4934)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cwrdd yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod ystod eang o faterion sydd yn cynnwys adfywio cymoedd de Cymru.

Y brif elfen a fydd yn gyrru adfywio o'r fath dros y saith mlynedd nesaf fydd rhoi'r rhaglen Amcan 1 ar waith. Tra bo'r cyfrifoldeb am hyn yn disgyn ar y Cynulliad a'i bartneriaid, mae fy nhrafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn sicrhau ein bod yn gweithio'n agos gyda'n gilydd i hyrwyddo buddiannau Cymru, gan gynnwys cymoedd de Cymru, o fewn Llywodraeth y DU a thu hwnt.

### Partneriaeth rhwng Busnesau a'r Cynulliad

**C15 Carwyn Jones:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ynghylch adeiladu partneriaeth rhwng busnesau a'r Cynulliad, gan nodi'n benodol fethiant Bairdwear i ymgynghori â'r Cynulliad ynghylch cau ffatrïoedd? (OAQ4943)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ers ei sefydlu, bu partneriaeth gyda busnes yn un o flaenoriaethau pennaf y Cynulliad. I'r perwyl hwn, sefydlwyd y Cyngor Partneriaeth Busnes i wasanaethu fel fforwm i drafodaeth rhwng y gymuned fusnes a'r Cynulliad. Mae'r Cyngor yn cynnwys cynrychiolwyr o Busnes Cymru, corff ymbarél a sefydlwyd gan y prif gyrff sydd yn cynrychioli busnesau, TUC Cymru, Menter Cymuned Cymru a Chanolfan Gydweithredol Cymru (sydd yn cynrychioli'r economi cymdeithasol) ac 11 Aelod o'r Cynulliad, gan adlewyrchu cynrychiolaeth y pleidiau yn y Cynulliad.

Yn ychwanegol at hynny, penodwyd Roger Thomas yn gynghorydd partneriaeth busnes y Cynulliad. Ei rôl ef yw atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth a busnes yng Nghymru.

Mae yna hefyd lawer iawn o gyswllt anffurfiol rhwng aelodau a swyddogion y Cynulliad ac aelodau o'r gymuned fusnes a'r cyswllt personol hwn yw un o'r ffyrdd gorau yn aml o selio perthynas.

O ran y sefyllfa gyda Bairdwear, anerchodd aelodau o undeb y GMB Aelodau'r Cynulliad ar 17 Ionawr a chyfarfûm i, yn bersonol, â Tony Harris, swyddog diwydiannol rhanbarthol y GMB yn ne Cymru, ar 14 Chwefror, ac â rheolwr caffael Marks and Spencer, Joe Rowe, ar 23 Chwefror. Bu'r Cynulliad, y Gwasanaeth Cyflogi a'r cynghorau hyfforddiant a menter i gyd yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i liniaru'r amgylchiadau y cafodd Bairdwear a'i weithwyr eu hunain ynddynt yn sgîl colli contract Marks and Spencer. Wedi dweud hynny, rhaid peidio ag anghofio o gwbl mai penderfyniad masnachol gan Marks and Spencer a arweiniodd at gau ffatrïoedd Bairdwear. Fodd bynnag, ni chodwyd unrhyw amheuon o gwbl yma ynglŷn ag ymrwymiad y Cynulliad a'r partïon eraill i'r ethos partneriaeth. Mae'n flin iawn gennyf fod y diswyddiadau wedi digwydd. Fodd bynnag, rhaid ichi sylweddoli mai un o sgîl effeithiau economi sydd yn adnewyddu ei hun yw hyn a gobeithiaf fod gweithredoedd y Cynulliad a'i bartneriaid yn darparu ailhyfforddiant a sgiliau newydd i'r rheini yr effeithiwyd arnynt wedi galluogi'r rhai a oedd am gael gwaith cyflogedig arall i wneud hynny.

### Deddf Hawl i Gyfiawnder 1999

**C16 Helen Mary Jones:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cynnal unrhyw drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch rhoi Deddf Hawl i Gyfiawnder 1999 ar waith yng Nghymru? (OAQ4927)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cael trafodaethau mynych gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ystod o faterion. Nid wyf wedi cael trafodaethau gydag ef ynglŷn â rhoi Deddf Hawl i Gyfiawnder 1999 ar waith yng Nghymru. Mater i'r Arglwydd Ganghellor yw rhoi'r Ddeddf hon ar waith.

## Arolwg Cynhwysfawr o Wariant

C17 **Cynog Dafis:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael trafodaethau yn ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â thrafodaethau Llywodraeth Prydain ar yr arolwg cynhwysfawr o wariant? (OAQ4944)

**Y Prif Ysgrifennydd:**Yr wyf yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod ystod eang o faterion sydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys yr arolwg presennol o wariant.

## Datganoli Pwerau ar gyfer Deddfwriaeth Sylfaenol i'r Cynulliad

**C18 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch datganoli pwerau ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol i'r Cynulliad? (OAQ4941)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar ystod o faterion gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol newydd, sydd yn cyflwyno swyddogaethau i'r Cynulliad. Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath ar y cwestiwn o ddatganoli pwerau i'r Cynulliad i basio deddfwriaeth sylfaenol.

## Safle Tirlenwi Nant-y-gwyddon

**C19 Jocelyn Davies:** Pa sylwadau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu derbyn oddi wrth unigolion neu fudiadau yn y misoedd diwethaf ynghylch cyflwr safle tirlenwi Nant-y-gwyddon? (OAQ4924)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ers mis Ionawr, mae'r Cynulliad wedi derbyn nifer o sylwadau am Nant-y-gwyddon, gan gynnwys gohebiaeth oddi wrth y grŵp gweithredu lleol, Trigolion yn Erbyn Nant-y-gwyddon, neu RANT, ac aelodau o'r cyhoedd. Ym mis Ebrill, cyfarfu Sue Essex â RANT a nifer o Aelodau Plaid Cymru o'r Cynulliad i drafod eu pryderon ynglŷn â'r safle.

## Gweithio gyda Cyngor Dinas a Sir Abertawe

**C20 Peter Black:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gyfarfod â Phrif Weithredwr Dinas a Sir Abertawe i drafod cydweithio â'r cyngor hwnnw i hybu Cymru'n well? (OAQ4938) [R]

**Y Prif Ysgrifennydd:** Un o amcanion y Cynulliad yw codi statws rhyngwladol Cymru. Yr ydym eisoes yn gweithio gyda'r cyrff a'r asiantaethau allweddol yn y sector cyhoeddus i ddatblygu strategaeth fwy cydlynus er mwyn codi proffil Cymru, ac mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ei chynrychioli ar grŵp cydlynu a sefydlwyd i'r diben hwnnw. Byddwn yn croesawu unrhyw gyfraniad y gallai Abertawe ei wneud tuag at gyflawni ein hamcan.

## Datganiad ar Gyflawniadau'r Cynulliad

**C21 Michael German:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar yr hyn y mae'r Cynulliad wedi ei gyflawni yn ystod 12 mis cyntaf ei fodolaeth? (OAQ4919)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Cynulliad wedi sefydlu ei hun fel corff llunio-polisi cyfrifol a chynhwysol ac fel llais awdurdodol Cymru. Un o'r pethau mwyaf arwyddocaol y mae wedi ei gyflawni yw creu prosesau mwy agored ac atebol. Er enghraifft, mae blaenoriaethau gwariant y Cynulliad yn cynrychioli canlyniadau dadl ddemocrataidd a cheir ynddynt fesur da o gonsensws rhwng yr holl bleidiau. Ni allai hyn fod wedi digwydd cyn datganoli. Bellach mae cofnodion y Cabinet yn cael eu cyhoeddi. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i ffyrdd newydd, mwy agored o wneud pethau.

Mae'r Cynulliad wedi edrych mewn ffordd ffres a strategol ar ei gyfrifoldeb yn 'Gwellcymru.com'. Ymgymerwyd â'r broses hon gyda'r pwyslais ar ymgynghori a deialog. Yn yr ysbryd hwnnw yr ydym hefyd wedi sefydlu partneriaethau gyda llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, busnesau ac undebau llafur. Mae'r partneriaethau hyn yn dangos penderfyniad y Cynulliad i weithio gydag eraill i gyflawni'r hyn sydd orau i Gymru.

Mae'r Cynulliad wedi sicrhau newidiadau sylweddol mewn deddfwriaeth sylfaenol i adlewyrchu amgylchiadau Cymru; yr ydym wedi adolygu'r cwricwlwm cenedlaethol ac wedi ymrwymo i benodi comisiynydd plant i Gymru. Yr ydym wedi sefydlu swyddfa ym Mrwsel, a fydd yn galluogi Cymru i ddylanwadu ar waith llunio polisi yn Ewrop.

Yn ei flwyddyn gyntaf mae'r Cynulliad wedi sefydlu ei hun, wedi datblygu partneriaethau i'w alluogi i weithio gydag eraill ac wedi adolygu ei amcanion hirdymor. Bu hynny yn ddechrau da iawn.

### Statws Dinas Trefi Cymru

**C22 William Graham:** Yn ei rôl o hybu delwedd a statws Cymru, pa sylwadau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cyflwyno i San Steffan ynghylch y cynigion a wnaethpwyd gan drefi yng Nghymru i gael statws dinas? (OAQ4932)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf wedi gwneud unrhyw sylwadau penodol ar y ceisiadau am statws dinas ers imi gael fy ethol yn Brif Ysgrifennydd. Byddai'n amhriodol imi gyflwyno sylwadau ar gynigion unigol ond yr wyf yn dymuno llwyddiant i'r holl geisiadau o Gymru.

### 'Gwellcymru.com' (Fformwla Gyllido)

**C23 Janet Ryder:** Pa feini prawf y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer yr ymrwymiad sydd yn y ddogfen 'Gwellcymru.com' i gynnal adolygiad o'r fformwla gyllido bresennol ar gyfer Cymru? (OAQ4925)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes unrhyw ymrwymiad yn 'Gwellcymru.com' i adolygu'r fformwla gyllido ar gyfer Cymru, sef fformwla Barnett. Mae'r ymrwymiad yn 'Gwellcymru.com' i adolygu fformwlâu cyllido yn ymwneud â sicrhau gwell gwerth am ei arian i'r Cynulliad o'i gyllideb. Yr ydym eisoes yn y broses o adolygu'r modd y mae'r fformwla ar gyfer dosbarthu adnoddau i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd yn cael ei rhoi ar waith gyda'r nod o dargedu adnoddau at y rheini sydd yn fwyaf eu hangen. Mater i Ysgrifenyddion y Cynulliad a'r Pwyllgorau Pwnc fydd awgrymu meysydd eraill lle byddai'n briodol adolygu'r fformwlâu cyllido.

### Taliadau Pensiwn (Trafodaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol)

**C24 Jenny Randerson:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol am yr oedi o ran rhoi taliadau pensiwn cywir? (OAQ4936)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dim. Nid yw nawdd cymdeithasol, gan gynnwys talu pensiynau gwladol, wedi ei ddatganoli i'r Cynulliad ac mae'n dal yn gyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol. Cynghoraf chi i gysylltu ag ef ynglŷn â'ch pryderon.

### Dimensiwn Ewropeaidd Gwaith y Cynulliad

**C25 Phil Williams:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd unrhyw gynlluniau i ehangu dimensiwn Ewropeaidd gwaith y Cynulliad? (OAQ4942)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf am weld Ysgrifenyddion y Cynulliad, Pwyllgorau a'r Is-adran Polisi yn cymryd effaith yr Undeb Ewropeaidd ar eu meysydd gwaith i ystyriaeth yn llawn. Ymgymerodd yr

adrannau â chyfres o adolygiadau polisi yn ddiweddar, a chaiff y rhain eu hystyried gan y Pwyllgorau Pwnc dros yr wythnosau nesaf. Bydd sefydlu swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel a'n haelodaeth o Ganolfan Ewropeaidd Cymru yn darparu adnoddau ychwanegol i gynghori a chynorthwyo'r Cynulliad yn y gwaith hwn.

**Gweithredu Rhaglen Amcan 1**

**C26 Alun Cairns:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y datblygiadau diweddaraf ar weithredu rhaglen Amcan 1 a'r modd y gall holl sectorau'r economi gyfranogi ohoni, yn enwedig y rhai sydd mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig? (OAQ4940)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cynnal trafodaethau yn rheolaidd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ystod o faterion, gan gynnwys Amcan 1. Mae'r trafodaethau hyn yn elfen hanfodol er sicrhau bod y Cynulliad a'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i hyrwyddo buddiannau Cymru o fewn Llywodraeth y DU a thu hwnt.

Mae'r holl gyfrifoldeb am roi'r rhaglen Amcan 1 ar waith yn disgyn i ran y Cynulliad a'i bartneriaid yng Nghymru. Yn unol â hynny, byddwn fel arfer yn disgwyl cynnal trafodaethau ar gyfranogiad gwahanol adrannau o'r economi yn y rhaglen un ai o fewn y Pwyllgor Datblygu Economaidd neu bwyllgor monitro'r rhaglen, yn hytrach na chyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, gwn fod Gweinidogion o Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd yn chwarae rhan weithredol yn cwrdd ag ystod o gyrff ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y mae Amcan 1 yn eu cynnig a chroesawaf eu cyfraniad.